Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Gweithgareddau'r Pecyn Symbolau

Mae eich pecyn symbolau yn dangos hawliau'r plentyn fel maen nhWn cael eu cyflwyno yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [CCUHP]. Isod mae rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau a fydd yn eich helpu i ddefnyddio'r cardiau i gefnogi pobl ifanc i feddwl am eu hawliau a dod i'w deall.

Datgelu'r hawl: Defnyddio gém dyfalu gweledol i gyflwyno'u hawliau i'r bobl ifanc.
Gall pobl ifanc chwarae'r gem fesul par neu gall oedolyn/person ifanc chwarae gyda grwp.

- Dewiswch un cerdyn a chuddio'r disgrifiad. Gofynnwch i grwp / bartner drafod pa hawl gallai'r llun ei gynrychioli.
- Datgelwch yr ateb. Pa mor agos oedden nhw? Gallwch chi ddyfarnu pwyntiau am lwyddo i ganfod beth yw'r hawl.
- Gwnewch yr un peth o'r cardiau eraill. Gallech chi weld pa grwp sy'n canfod y nifer mwyaf o hawliau a chael y sgor uchaf.

Helfa Hawliau: Cyflwyno plant a phobl ifanc i'w hawliau drwy ddefnyddio gém ganfod.

- Rhowch rai o'r cardiau i fyny o amgylch y gofod, e.e. 5
- Gofynnwch i'r grwp ddod o hyd i un o'r hawliau trwy ddweud yr hawl a naill ai: dangos cerdyn cyfatebol a'r hawl arno (os oes gennych chi ddwy set o gardiau); tynnu llun o'r symbolau; neu gyflawni gweithred / meimio un o'r symbolau.
- Mae rhaid i'r grwp ddod o hyd i'r cerdyn maen nhw'n meddwl sydd dan sylw. Yna gallwch chi ailadrodd hyn o hawl arall.
- Estyniad: roi'r cardiau mewn man sy'n gysylltiedig o'r hawl. E.e. rhoi'r hawl i gael bwyd a dwr glan yn ymyl tap; yr hawl i chwarae mewn man chwarae; yr hawl i wybodaeth yn ymyl cyfrifiadur neu lyfr; yr hawl i addysg yn ymyl adnodd dysgu.
- Estyniad: gofynnwch i rai plant guddio'r hawliau o amgylch y gofod i weddill y grwp ddod o hyd iddyn nhw. Pan fyddan nhw'n dod o hyd i hawl, gallwch chi drafod y symbol.

Beth yw'r peth pwysicaf? Datblygu dealltwriaeth o hawl gyda'r gem hon, sy'n gallu cael ei chwarae i estyn dysgu yn y gweithgareddau rhagarweiniol.

- Dosbarthwch rai cardiau i bob unigolyn / par / grwp bach.
- Gwahoddwch y bobl ifanc i arddangos eu cardiau yn nhrefn pwysigrwydd. Gallan nhw ddewis sut maen nhw am wneud hynny. Efallai byddan nhw am greu llinell o'r top i'r gwaelod. Efallai byddan nhw am greu diemwnt. Efallai byddan nhWn dewis rhoi'r cardiau yn ymyl ei gilydd neu mewn cylch.
- Gofynnwch i'r grwp edrych ar eu harddangosfeydd ei gilydd. Gall dwy arddangosfa greu par ac edrych ar ei gilydd, neu gallai'r grwp cyfan symud o amgylch y gofod i weld yr holl syniadau. Does dim ateb cywir neu anghywir.
- Estyniad: gallech chi ymuno i greu grwpiau mwy ac ad-drefnu'r cardiau o'r ddwy arddangosfa i greu un.

F**fram llonydd:** Archwilio hawliau gyda grwp o bobl ifanc gan ddefnyddio techneg drama 'ffram llonydd' (h.y. golygfa ddisymud sy'n darlunio'r erthygl). Defnyddiwch y poster Deall Eich Hawliau ochr yn ochr a'r cardiau yn y gweithgaredd hwn.

- Ymrannwch yn grwpiau bach o ryw 5 o bobl. Mae'n gweithio'n dda gyda chyfanswm o 4-6 o grwpiau.
- Mae pob grwp yn cymryd cerdyn ar hap (gallan nhw ddewis sawl tro os byddan nhw'n cael trafferth perfformio'r un maen nhw wedi'i ddewis).
- Gwahoddwch y grwpiau i baratoi ffram llonydd o'u hawl.
- Mae'r grwpiau'n cymryd eu tro i ddangos eu hawl. Mae'r grwpiau eraill yn defnyddio'u poster Adnabod Eich Hawliau i ganfod beth yw'r hawl. Manteisiwch ar y cyfle i drafod eu syniadau.
- Estyniad: gwahoddwch grwpiau i greu sgets fach sy'n ymdrin a nifer o hawliau. Pan fyddan nhw'n cyrraedd hawl, byddan nhw'n aros heb syrnud nes bod y gynulleidfa'n dyfalu beth yw'r hawl.

Pa gategori? Gweithgaredd categoreiddio yw hwn, sy'n galluogi pobl ifanc i weld pa mor eang yw hawliau.

- Rhowch bob un o'r pedwar cerdyn categori, Cyfranogi, Amddiffyn, Datblygu, Goroesi ar fwrdd.

Gofynnwch i'r grwp ddosbarthu pob un o'r 42 erthygl i'r categoriau. Efallai byddwch chi am roi gwybodaeth ychwanegol am y categoriau fel a ganlyn:

1. Goroesi: diwallu anghenion sylfaenol plentyn
2. Datblygu: galluogi plentyn i ddatblygu'n llwyddiannus ar hyd eu plentyndod.
3. Cyfranogiad: galluogi plant i fod yn rhan o'r gymdeithas ac o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
4. Amddiffyn: atal niwed a dylanwad niweidiol.

Anogwch drafodaeth ar hyd y gweithgaredd. Ar ol i'r holl gardiau gael eu dosbarthu, gofynnwch i'r bobl ifanc pa rai gawson nhw fwyaf o drafferth i'w lleoli a thrafod pam. Gall rhai cardiau ymwneud o mwy nag un maes.

Unben: Datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod dim modd gwahanu hawliau

- Dywedwch wrth y grwp eu bod nhw i gyd yn byw ar ynys a phenodwch un person yn unben ar yr ynys.
- Dosbarthwch y cardiau hawliau fel bod Un gan bawb arall yn y grwp, a gofynnwch i bawb ohonyn nhw sefyll i fyny a dangos eu hawl.
- Dywedwch wrth yr unben am benderfynu dileu un o'r hawliau. Dylai'r person sy'n dal yr hawl dan sylw eistedd i lawr. Nawr gofynnwch i weddill y grwp edrych ar eu hawliau nhw, fydd y bobl sy'n byw ar yr ynys yn dal i fedru derbyn yr hawl honno os yw'r llall wedi cael ei dileu? Os na fyddan nhw, dylen nhw eistedd i lawr hefyd.
- Darllenwch yr hawliau sy'n cael eu dal gan y bobl sydd wedi eistedd i lawr. Os yw'r hawliau hyn wedi mynd, oes unrhyw un syn dal i sefyll yn teimlo dylen nhw eistedd i lawr hefyd?
- Dadfriffio trwy drafod beth mae hyn yn ei ddangos i ni am hawliau, ac am beth sy'n digwydd os bydd hawliau'n dechrau cael eu dileu. Efallai byddwch chi am gyflwyno'r gair 'anrhanadwy' (ddim yn gallu cael eu gwahanu).